# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5366

## 172

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 a 5 gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 7 gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.11

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Maes Awyr Caerdydd yn sgil adroddiadau bod cwmni awyrennau Flybe yn mynd i gael ei werthu?

**Rhun Ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau trên yn dilyn ymddiheuriad cyhoeddus Trafnidiaeth Cymru am ddiffygion yn y gwasanaethau?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.38

Gwnaeth Sian Gwenllian ddatganiad am: Ymgyrch Flynyddol y Cenhedloedd Unedig - 16 diwrnod o weithredu i ymladd yn erbyn trais rhywiol.

Gwnaeth Mick Antoniw ddatganiad am: 85 mlynedd ers Holodomor Wcrain.

Gwnaeth Dai Lloyd ddatganiad am: Lansio Strategaeth Golwg Cymru (fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol).

## Cynnig i ethol Aelod i Gomisiwn y Cynulliad (5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 15.43

**NDM6876** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.9, yn penodi Sian Gwenllian (Plaid Cymru) yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad yn lle Adam Price (Plaid Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 15.43

**NDM6877** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 ac 17.13(ii), yn ethol Helen Mary Jones (Plaid Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Cyllido Addysg Bellach

Dechreuodd yr eitem am 15.44

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6862**

[Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)](#)
[Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)](#)
[Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)](#)
[Sian Gwenllian (Arfon)](#)
[Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod cyllid ar gyfer addysg bellach wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i doriadau cyllidebol.

2. Yn nodi bod y sector addysg bellach wedi'i osod o dan bwysau ychwanegol, yn rhannol oherwydd polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dysgu gydol oes, sgiliau a chyflogadwyedd, a gafodd eu hegluro yn y cynllun cyflogadwyedd diweddar a ddiweddarwyd gan ddatganiad ysgrifenedig ym mis Medi 2018.

3. Yn mynegi pryder bod staff mewn sefydliadau addysg bellach yn ystyried mynd ar streic dros gyflogau annigonol a phryderon ynghylch llwythi gwaith trwm.

4. Yn cynnig na ddylai fod unrhyw ostyngiad pellach o ran faint o arian a dderbynnir gan y sector addysg bellach ac y dylid cydnabod ei safle fel allwedd i gynhyrchiant, sgiliau, hyfforddiant a chyflogadwyedd yn economi Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 3 | 21 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Creu'r Diwylliant Cywir

Dechreuodd yr eitem am 16.31

**NDM6870** [Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)](#)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 'Creu'r Diwylliant Cywir', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Medi 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Ddeiseb P-05-828 Rhagdybiaeth o Blaid Ysgolion Gwledig

**NDM6871** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb, 'P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig', a gasglodd 5,125 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.49

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.50

**NDM6872** Rhianon Passmore (Islwyn)

Trafnidiaeth Cymru: y ffordd o drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd yn Islwyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.02

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018**